# Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ28408 a gyhoeddwyd gan Rhodri Morgan, y Prif Weinidog, ar 5 Tachwedd 2003

**At Sandy Mewies:**

Addewais ysgrifennu atoch, yn dilyn y ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar 7 Hydref, ynglŷn â'r mater o ymarferwyr nyrsio sy'n arbenigo yn yr agweddau ar niwroleg sy'n ymwneud â lleddfu poen.

Mabwysiedir agwedd amlddisgyblaethol i fynd i'r afael â lleddfu poen mewn sawl ysbyty, gan gynnwys pobl broffesiynol o wahanol arbenigeddau a disgyblaethau. Mae gwasanaethau rheoli poen gan sawl ymddiriedolaeth yng Nghymru ac arweinir rheoli poen plant gan dimau poen generig.

Yng Nghymru, mae'r strategaeth nyrsio a bydwreigiaeth i Gymru yn ymdrin â datblygu pob rôl a datblygodd grŵp Gweithrediaeth Nyrsys Cymru bapur trafod ar y mater hwn. O ran y DU gyfan, mae gan sawl canolfan dimau poen ar gyfer gwasanaethau oedolion sy'n ymdrin ag atgyfeiriadau niwrolegol pan eu bod yn eu derbyn.

Y mae grŵp amlddisgyblaethol a arweinir gan Gymdeithas Poen Cymru sy'n datblygu fframwaith gwasanaethau poen ar gyfer Cymru gyfan. Bydd y Cynulliad yn ystyried y fframwaith hwn pan gyflwynir ef i ni. Bydd yn ystyried y dystiolaeth ar ystod o agweddau, gan gynnwys ymarferwyr nyrsio arbenigol.

Yr wyf yn anfon copi o'r llythyr hwn at Jane Hutt.